# ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU
# 2019-20

# Rhagair

Yn ystod y flwyddyn 2019-20, cynhaliwyd adolygiad trylwyr o’n trefniadau craffu. Fe aeth amser sylweddol swyddogion a chynghorwyr i lunio ac ystyried opsiynau posib ar gyfer craffu i’r dyfodol. A hynny er mwyn sicrhau bod gwaith craffu yn ychwanegu gwerth gan gyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd. Penllanw'r gwaith yma oedd cyflwyno adroddiad gerbron cyfarfod y Cyngor Llawn. Ymhelaethir ar y broses, yr ystyriaethau, yr opsiynau posib a’r penderfyniad o ran ein trefniadau craffu i’r dyfodol, yn yr adroddiad yma.

Law yn llaw a’r adolygiad yma, roedd y gwaith craffu yn parhau gydag eitemau yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol, ymchwiliadau craffu yn cael eu cynnal, aelodau craffu yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Aelodau Cabinet a sesiynau anffurfiol rhannu gwybodaeth ar bynciau ar gyfer aelodau pwyllgorau craffu penodol.

Mae’r adroddiad yma yn crynhoi’r gwaith craffu a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar y prif waith craffu ac ymhelaethu ar eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol o’r Pwyllgorau Craffu - Addysg ac Economi, Cymunedau a Gofal ynghyd â’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (sydd gyda rôl i graffu materion corfforaethol yn ogystal â’i rolau archwilio a llywodraethu).

Gellir gweld rhestr o’r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn mewn atodiad i’r adroddiad yma.

Ni lwyddwyd i gwblhau’r rhaglen waith craffu oherwydd pandemig Covid-19, diogelwch pawb ar yr adeg yma sydd bwysicaf, ac fe gaiff unrhyw fater sydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ei graffu yn y dyfodol.

Hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad o gyfraniad a gwaith y cadeiryddion ac is-gadeiryddion, a’r holl aelodau craffu a oedd wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn. Mae ein diolch yn fawr hefyd i drigolion Gwynedd, Aelodau Cabinet, asiantaethau eraill a swyddogion perthnasol sy’n ein cefnogi i geisio sicrhau cyrraedd ein nod.



Cynghorydd Beth Lawton

Cadeirydd y Fforwm Craffu

# Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu 2019-20

## Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi



Cynghorydd Paul Rowlinson



Cynghorydd Elwyn Jones

## Pwyllgor Craffu Cymunedau



Cynghorydd Elfed P. Roberts



Cynghorydd Gethin Glyn Williams

## Pwyllgor Craffu Gofal



Cynghorydd Dewi Wyn Roberts



Cynghorydd Beth Lawton

## Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu



Cynghorydd John Brynmor Hughes



Cynghorydd Angela Russell

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adolygiad o Drefniadau Craffu | 4 - 5 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 6 |
| Craffu Arbedion | 7 - 10 |
| Materion Craffu | 11 - 16 |
| Ymchwiliadau Craffu | 17 - 20 |
| Herio Perfformiad | 21 - 22 |
| Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2019/20 | 23 |

<u>Atodiad</u>

| | |
|---|---|
| Rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn | 24 - 26 |

# Adolygiad o Drefniadau Craffu

Cynhaliwyd adolygiad trylwyr o'n trefniadau craffu a oedd yn eu lle ers Mai 2017. O dan y drefn mewn lle, roedd tri Phwyllgor Craffu ynghyd â rôl craffu materion corfforaethol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Gydag ymchwiliadau craffu yn cael eu cynnal, hefo oddeutu pump aelod yn ymchwilio i fater penodol mewn cyfres o gyfarfodydd anffurfiol, cyn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu gydag argymhellion er sylw Aelodau Cabinet.

Y rhesymeg tu ôl i gynnal yr adolygiad oedd:

- ein bod yn derbyn sylwadau nad oedd craffu yn ychwanegu gwerth, fod ein trefniadau cyfredol yn araf yn dwyn ffrwyth a theimlad y gellid gwneud pethau yn well
- bod hyd at 50% o eitemau'r pwyllgorau craffu yn eitemau er gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor craffu penodol
- bod seddi gweigion ar nifer o'n pwyllgorau craffu (dros y misoedd diwethaf) gan fod aelodau ddim yn awyddus i fod yn eistedd ar bwyllgor craffu
- bod ceisio gwelliant parhaus trwy adolygu a herio ein trefniadau yn beth da, ein bod wedi addo gwneud hyn wrth i'r trefniadau newydd gael eu mabwysiadu yn Mawrth 2017 a bod cefnogaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru i hynny.

Sefydlwyd gweithgor o aelodau a swyddogion i adolygu'r trefniadau. Aelodaeth y gweithgor oedd y Cynghorwyr Simon Glyn, Nia Jeffreys, Beth Lawton, Dyfrig Siencyn ynghyd ac Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned) a Dilwyn Williams (Prif Weithredwr).

Daeth y gweithgor i'r casgliad y dylid diffinio pwrpas craffu er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth ynghylch pwrpas craffu yng Ngwynedd. Nodir y diffiniad isod:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

Mae'r diffiniad wedi ei selio ar arfer gorau'r Ganolfan Graffu Gyhoeddus (*CfPS – Centre for Public Scrutiny*). Nid yw'n ail-ddiffinio'r gofyn statudol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, ond yn hytrach yn cadarnhau ethos Craffu yng Ngwynedd.

Wrth fynd ati i lunio opsiynau posib ar gyfer gwella'r trefniadau craffu a sicrhau bod y craffu yn ateb y pwrpas, rhoddodd y gweithgor sylw i'r prif ystyriaethau a ganlyn:

- Trefniadau rhannu gwybodaeth gyda'r holl aelodau
- Manteision ac anfanteision trefniadau craffu ffurfiol mewn pwyllgor
- Manteision ac anfanteision ymchwiliadau
- Adnoddau ac amser

Ffrwyth gwaith y gweithgor oedd tri opsiwn posib ar gyfer ein trefniadau craffu sef:


1. Tri Phwyllgor Craffu (Addasu'r trefniadau cyfredol)
2. Un Prif Bwyllgor Craffu
3. Dau Bwyllgor Craffu

Y cam nesaf oedd cael barn holl aelodau'r Cyngor ar yr opsiynau oedd wedi eu datblygu. Cynhaliwyd dau weithdy, gofynnwyd i'r aelodau am eu barn o ran manteision ac anfanteision yr opsiynau. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Grŵp Rheoli Corfforaethol (cyfarfod Penaethiaid Adran) am eu barn.

Yn dilyn y trafodaethau uchod, ystyriwyd y sylwadau yng nghyfarfod y Fforwm Craffu (cyfarfod o Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu) ar 24 Hydref 2019. Gwahoddwyd aelodau'r gweithgor i'r cyfarfod er mwyn trafod y sylwadau a rhoi sylw i faterion penodol, megis meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgorau Craffu, rôl y Fforwm Craffu, niferoedd aelodau ar bwyllgorau a nifer cyfarfodydd fesul opsiwn.

Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 28 Tachwedd 2019 ac yna gerbron y Cyngor ar 19 Rhagfyr 2019 er penderfyniad ar y trefniadau i'r dyfodol. Gellir cael mynediad at yr adroddiad i'r Cyngor Llawn yma - Eitem 12 - Adolygiad o Drefniadau Craffu

Penderfynwyd yng nghyfarfod y Cyngor i barhau gyda'r trefniadau cyfredol, sef tri Phwyllgor Craffu gydag addasiadau.



# Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae’r Ddeddf yn gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio gwasanaethau sy’n gwarchod cenedlaethau’r dyfodol yn y tymor hir. Mae’n gosod dyletswydd i wella llesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol pobl Cymru.

Wrth graffu mae aelodau yn ystyried y 5 ffordd o weithio sydd wedi eu nodi yn y Ddeddf:



Hirdymor

Cydbwyso anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol.



Atal

Atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol, yn hytrach nag ymateb i broblemau.



Integreiddio

Sut all amcanion llesiant y Cyngor effeithio ar y nodau llesiant cenedlaethol a amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill (e.e. bwrdd iechyd neu heddlu lleol).



Cydweithio

Gweithio gydag eraill er mwyn cyflawni’r amcanion llesiant.



Cynnwys

Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu cynlluniau a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.

Mae’n angenrheidiol bod aelodau’n mireinio sgiliau craffu gan roi ystyriaeth i’r hyn sydd yn ofynnol ar gyrff cyhoeddus yn rhinwedd y Ddeddf. Bwriedir atgoffa aelodau yn rheolaidd ar ofynion y Ddeddf er mwyn gallu sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â’r Ddeddf.

# Craffu Arbedion

Dros y blynyddoedd diwethaf, cymeradwywyd gwerth £32 miliwn o arbedion gan y Cyngor. Gwireddwyd £28.4 miliwn o'r cynlluniau arbedion. Gyda'r ansicrwydd ariannol yn parhau gofynnwyd i Adrannau'r Cyngor i adnabod £2 miliwn o arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

Cyflwynwyd cynlluniau arbedion posib yr Adrannau gerbron cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2019.

**Pwyllgor Craffu Gofal 14/11/19**

| Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd £112,830 | Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant £488,270 | Adran Tai ac Eiddo £59,420 |
|---|---|---|
| Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd pryder gan nifer o aelodau y byddai'r toriad o £30,000 i Cymorth i Ferched yn arwain at fwy o gostau i'r Cyngor yn y pen draw a phwysleisiwyd pwysigrwydd gwneud asesiad llawn o'r ardrawiad posib' ar y Cyngor. | Mynegwyd pryder yn gyffredinol ynglŷn ag effaith y cynigion arbedion ar drigolion bregus y sir a phwysleisiwyd pwysigrwydd monitro'r effaith.<br><br>Mynegodd aelodau bryder neilltuol ar y cynnig i dorri dwy swydd Gweithiwr Cefnogol Iechyd Meddwl (£42,000) ynghyd â'r cynnig i leihau'r gyllideb ar gyfer cefnogi gofalwyr, yn cynnwys rhai cynlluniau ysbaid (£19,000). | Llongyfarchwyd yr Adran ar eu dull o ganfod arbedion drwy fewnoli elfennau o'r gwaith a chroesawyd eu bwriad i edrych ar bob cyfle tebyg yn y dyfodol.<br><br>Nodwyd yng nghyd-destun y cynlluniau na wireddwyd, bod yr Adran yn chwilio am gynlluniau eraill. |

**PENDERFYNWYD:**

**(a) Cymeradwyo cynigion yr Adran Tai ac Eiddo i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol fel rhai sydd gydag ardrawiadau lleiaf ar drigolion.**

**(b) Derbyn yr adroddiadau ar gynigion yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol a gofyn i'r Cabinet ystyried sylwadau'r pwyllgor o ran ai'r rhain sydd wirioneddol yn cael yr ardrawiad isaf cyn cymeradwyo'r arbedion hynny.**

## Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 21/11/19

| Adran Economi a Chymuned | Adran Addysg | Ysgolion |
|---|---|---|
| £66,910 | £120,030 | £608,050 |

Nodwyd, er y byddai'r cynigion yn cael rhywfaint o effaith ar drigolion Gwynedd, bod yr Adran wedi llwyddo i leihau'r effaith gymaint â phosib

Bu trafodaeth drylwyr, lle canolbwyntiwyd ar y cynigion arbedion yn ymwneud â'r ysgolion.

Mynegwyd cryn bryder gan aelodau ynglŷn â dau gynnig arbed yn benodol, sef 'Integreiddio – Cynllun Datblygu Unigol (CDU)/Datganiadau' (£112,530) a chynyddu'r gymhareb disgybl / athro yn y fformiwla dyrannu (£463,900).

Wedi derbyn rhywfaint o esboniad pellach am yr hyn y byddai'r naill gynllun a'r llall yn ei olygu i ysgolion y sir, nodwyd y byddai'r naill yn golygu llai o gymorth i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sydd ddim yn destun CDU / Datganiad a'r llall yn arwain at leihau nifer athrawon a / neu leihau niferoedd staff ategol, gan effeithio ar safonau addysgol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg fod ystyriaeth ddwys wedi'i rhoi i'r holl opsiynau. Ni allai wneud argymhellion yn unman arall a'r cynlluniau gerbron oedd y rhai fyddai'n cael lleiaf o ardrawiad ar blant.

"Byddai'r toriadau dan sylw ar gyllidebau ysgolion ac addysg arbennig yn cael effaith andwyol ar addysg plant"

Aelod Craffu

**PENDERFYNWYD:**

**(a)** **Derbyn mai cynigion yr Adran Economi a Chymuned i gwrdd â'u cyfran o'r arbedion perthnasol yw'r rhai sydd yn cael ardrawiad lleiaf ar drigolion Gwynedd.**

**(b)** **Nodi'r adroddiad ar gynigion yr Adran Addysg ac Ysgolion i gwrdd â'u cyfran o'r arbedion perthnasol, a'r sylwadau cryf sydd wedi'u gwneud, chyfleu hynny i'r Cabinet.**

## Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 28/11/19

| Adran Cefnogaeth Gorfforaethol | Adran Cyllid | Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol |
|---|---|---|
| £61,340 | £58,930 | £16,800 |

Ymatebwyd i gwestiynau a sylwadau'r aelodau yn y cyfarfod.

Roedd aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod y cynigion yn rhai synhwyrol ac yn croesawu nad oedd yr arbedion yn creu effaith ar drigolion Gwynedd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo cynigion yr adrannau i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol.**

## Pwyllgor Craffu Cymunedau 5/12/19

| Adran Amgylchedd | Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Adran Ymgynghoriaeth |
|---|---|---|
| £96,560 | £281,190 | £29,670 |
| Nodwyd bod yr Adrannau yn cynnal trafodaethau traws adrannol i geisio adnabod cyfleoedd o gydweithio o fewn meysydd cyffredin fel bod modd osgoi dyblygu gwaith. | Mewn ymateb i awgrym ynglŷn â'r gallu i leihau / torri i lawr costau contractio allanol fel bod modd i gwmnïau llai / lleol gystadlu am y gwaith (o dan y rhiniog), derbyniwyd y gellid gwneud mwy i gadw'r budd yn lleol a rhoi cyfleoedd i fusnesau lleol ymgeisio am y gwaith. | Croesawyd yr ymarfer o gynyddu'r adnoddau o fewn unedau Ymgynghoriaeth Gwynedd i alluogi'r Adran i gynyddu incwm sydd o ganlyniad yn cadw pobl yn gyflogedig mewn swyddi sgiliau uchel o fewn y Sir drwy gyfrwng y Gymraeg. |

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo cynigion yr adrannau i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol.**

Yn dilyn y trafodaethau yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau, ystyriodd y Cabinet yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr y cynigion arbedion a chyllideb y Cyngor.

Erbyn yr adeg y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet, roedd y Cyngor wedi derbyn setliad drafft 2019-20 a oedd yn well na'r disgwyl, cynnydd o 4.6%. Er bod y setliad yn cyfarch chwyddiant nid oedd yn cyfarch ariannu'r galw ychwanegol ar adrannau. Roedd tebygolrwydd y byddai bwlch ariannol o £3.5miliwn yn parhau i fod angen ei gyfarch.

Cymeradwyodd y Cabinet gwerth £1,062,320 o'r cynlluniau arbedion gan ymwrthod rhag defnyddio'r arbedion sydd wedi eu nodi isod. Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf gyllidol yn cael ei ddefnyddio i ymgynghori gyda'r holl aelodau mewn gweithdai cyllid yn Ionawr 2020.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Toriad rhannol yn y cyfraniad i Cymorth i Ferched<br>£30,000 | Cytundebau 3ydd Sector<br>£150,000 | 2 swydd Gweithiwr Cefnogol Iechyd Meddwl<br>£42,000 | Cefnogi Gofalwyr<br>£19,000 |
| Gwasanaethau Pobl Hyn, Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl<br>£120,000 | Integreiddio – Cynllun Datblygu Unigol (CDU)/Datganiadau<br>£112,530 | Cynyddu'r 'Gymhareb Disgybl Athro' yn y fformiwla dyrannu<br>£463,900 | Celf Cymunedol<br>£1,000 |

**Cyfanswm - £938,430**

Mabwysiadodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2020, gyllideb ar gyfer 2020-21 a oedd yn cynnwys penderfyniad y Cabinet i weithredu £1,062,320 o arbedion ynghyd â £923,080 o gynlluniau arbedion a oedd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol.

## EFFAITH CRAFFU

Llwyddodd y gwaith craffu yma i amlygu pryderon am effaith gweithredu rhai o'r cynlluniau arbedion ar bobl Gwynedd.

Yn dilyn derbyn setliad grant gwell na'r disgwyl, roedd yn bosib i'r Cabinet beidio gweithredu ar y cynlluniau arbedion roedd yr aelodau craffu wedi eu hadnabod.

# Materion Craffu

Yn y rhan yma gwelir blas o’r eitemau sydd wedi eu craffu yng nghyfarfodydd ffurfiol craffu. Gyda phwyslais ar adnabod gwerth craffu materion, canolbwyntir ar yr eitemau sydd wedi ychwanegu gwerth fwyaf. Gall craffu effeithiol wneud Aelodau Cabinet yn ymwybodol o bethau ychwanegol sydd angen eu hystyried. Gellir gweld rhestr gyflawn o’r eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn yr Atodiad i’r adroddiad yma.

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn


Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn 2016 yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a pum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus. Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn yn 2018, mae’n cynnwys dau amcan a chwe maes blaenoriaeth. Mae’r Bwrdd yn cydweithio i sicrhau’r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn.

Craffwyd ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, gydag adroddiad blynyddol 2018/19 y Bwrdd ac adroddiad ar Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni’r Bwrdd yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

Wrth drafod adroddiad blynyddol y Bwrdd yng nghyfarfod 4 Gorffennaf, rhai o’r sylwadau a wnaed gan aelodau’r Pwyllgor Craffu Cymunedau oedd:

- Newid Hinsawdd - Siom mai adweithiol oedd y gwaith yng nghyd-destun llifogydd yn hytrach nag arloesol ac uchelgeisiol.
- Cartrefi ar gyfer Pobl Leol – rhaid adnabod safleoedd yn y llefydd cywir a bod y cartrefi yn ymateb i’r angen.
- Bod angen manylion mesuryddion a cherrig milltir ar y prosiectau ynghyd a gosod amserlen gadarn yn hytrach na nodi tymor byr, canolog, hir.

Awgrymwyd wrth graffu ar Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni’r Bwrdd yr angen i gynnwys cefnogaeth i deuluoedd / gofalwyr ym maes gwaith Iechyd a Gofal Oedolion. Pwysleisiwyd yr angen i wneud gwaith i adnabod maes gwaith /darganfod prosiectau all gyflawni a gwneud gwahaniaeth yn y maes tlodi.




Bwriadwyd craffu adroddiad cynnydd ar gyflawni’r Cynllun Llesiant yng nghyfarfod 2 Ebrill ond nid oedd yn bosib oherwydd pandemig Covid-19. Bydd craffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau yn ystod 2020-21.

## Grŵp Tasg Rheoli Parcio

Derbyniwyd cais gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd i sefydlu Grŵp Tasg, i gynorthwyo’r Adran gyda’r gwaith o ddadansoddi’r amrediad opsiynau ar gyfer rheoli parcio yn wyneb yr heriau ariannol incwm o feysydd parcio yn y dyfodol. Fel rhan o’r gwaith, bwriedir

ystyried y strategaeth barcio bresennol, ynghyd â ffioedd gwahanol i drigolion, parcio ar gyfer pobl anabl, parcio i drigolion, parcio ar gyfer ‘digwyddiadau’, parcio ar gyfer cartrefi modur (motorhomes), gorfodaeth a mannau gwefru.

Daethpwyd i’r casgliad y dylid cael cynrychiolaeth o Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Aelodau’r Grŵp Tasg sydd yn cyflawni'r gwaith, yw’r Cynghorwyr:


- Kevin Morris Jones,
- Angela Russell,
- Annwen Hughes,
- Gethin Glyn Williams.


Llun: “freepik.com”

Mae’r gwaith yn parhau ac fe adroddir ymhellach ar y gwaith yn adroddiad blynyddol 2020-21.

## Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd a’r Strategaeth Iaith Uwchradd

Craffwyd adroddiadau yn manylu ar weithrediad Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd ac ar weithrediad ac effaith y Strategaeth Iaith Uwchradd.




Nod y Siarter Iaith yw arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o’r Gymraeg. Yn sgil llwyddiant y Siarter, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, gwelwyd ehangu’r Siarter i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws rhanbarth y gogledd, ac yn fwy diweddar, lledaenwyd y Siarter Iaith i ysgolion Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru.




Er mwyn sicrhau dilyniant cadarn i’r Siarter Iaith datblygwyd y Strategaeth Iaith Uwchradd. Un o amcanion y Strategaeth Iaith yw rhoi arweiniad clir i’r 14 ysgol uwchradd ar dechnegau a strategaethau posib all gael dylanwad cadarnhaol ar arferion iaith dysgwyr yn gymdeithasol, yn ystod oriau ysgol a thu allan iddynt. Ynghyd â edrych ar elfennau cwricwlaidd o’r iaith hefyd e.e. cyfrwng pynciau.

Dyma rai o’r casgliadau yn dilyn y drafodaeth yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi:

- Bod neges glir gan yr aelodau i fod yn cadw troed ar y sbardun a pharhau gyda’r bwrlwm, ayb, gan ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod hynny’n digwydd. Mae hynny’n benodol er mwyn sicrhau rhoi statws i’r Siarter Iaith, fel rhan o’r cwricwlwm newydd (er bod peth pryder ei fod yn rhedeg ochr yn ochr, yn hytrach nag yn rhan greiddiol ohono), a hefyd er mwyn sicrhau bod statws i'r Siarter Iaith fel rhan o gynlluniau pob un ysgol.

- Bod neges hefyd ynglŷn â rhannu arferion da, gan sicrhau bod hynny'n digwydd yn y cynradd a'r uwchradd yn gyffredinol, a hefyd bod angen adnabod ymarferion da mewn meysydd diddordeb newydd, lle rydym efallai angen canolbwyntio mwy ar yr ochr gwefannau cymdeithasol, y we, rhaglenni teledu ayb.
- Bod neges hefyd ynglŷn â'r gwaith sy'n ddibynnol ar yr holl staff o fewn ein hysgolion ac anogaeth gref i geisio lledaenu'r neges y tu hwnt i ffiniau'r ysgol, gyda rhieni a'r gymdeithas yn fwy cyffredinol.
- Efallai bod lle i ystyried ail ymweld â'r waelodlin wreiddiol a diweddaru aelodau'r pwyllgor maes o law pan fydd astudiaeth y Llywodraeth i'r maes yn aeddfed
- Yn benodol o ran y Strategaeth Iaith Uwchradd, bod lle i ystyried ymestyn yr holiadur ar gyfer pobl ifanc hŷn (y grŵp oedran 16-18) er mwyn gweld oes yna wersi i'w dysgu, ac o ddysgu'r gwersi, addasu'r cymorth a'r gefnogaeth a'r ymyrraeth sy'n cael eu cynnig.
- Bod lle hefyd i fod yn gwthio'r gweithio gyda'r disgyblion i annog mwy o ddwyieithrwydd a bod hynny'n digwydd yn barhaus o fewn ein hysgolion gan annog disgyblion i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn benodol. Hefyd, dylid sicrhau cefnogaeth i'r athrawon, i'r gweithwyr ieuenctid ac i bawb sydd ynghlwm â hyrwyddo'r Strategaeth Iaith i fod yn cynorthwyo gyda'r Strategaeth yn yr uwchradd a'r Siarter Iaith Gynradd.

## Cynllun Peilot y Canolfannau Iaith

Yn 2018-19 craffwyd ar y datblygiadau ym maes canolfannau iaith cyn i'r mater gael ei drafod gan y Cabinet. Ar 2 Ebrill 2019 penderfynodd y Cabinet i weithredu cynllun peilot mewn un Ganolfan Iaith o strwythur staffio o athro a chymhorthydd er mwyn canfod ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant.

Cafwyd cyfle i roi mewnbwn craffu unwaith yn rhagor y flwyddyn yma. A hynny, drwy gyflwyno syniadau ac awgrymiadau a allai gyfrannu at yr ymchwil y bwriedir ei gynnal i fesur effaith gweithredu'r peilot mewn un Ganolfan Iaith a mynegi barn ar y modd y bwriedir mesur effaith gweithredu'r peilot.

Croesawyd y ffaith bod y tîm sy'n gweithredu ar ran yr Adran Addysg yn dîm amlddisgyblaethol, sy'n gymysg o arbenigwyr o'r adran ac arbenigwyr allanol, ond pwysleisiwyd y dylai'r adroddiad ar gasgliadau'r ymchwil gael ei gyflwyno yn enw arbenigwr allanol, er sicrhau'r elfen wrthrychol.

Croesawyd hefyd bod yna arbenigedd ieithyddol o fewn yr Adran Addysg a bod cyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol yn yr ymchwil. Nodwyd ei fod yn allweddol sicrhau adborth gan ysgolion gan fod hyn yn allweddol i'r fethodoleg, a bod barn ysgolion, y canolfannau iaith a'r disgyblion a'u rhieni yn hollbwysig. Nodwyd, hefyd yr angen i'r fethodoleg ystyried y tymor hwy a'r effaith ar ardrawiad polisi'r Cyngor ac ar ein hysgolion yn y tymor hwy yn ogystal ag awydd yr aelodau i fod yn rhan o'r broses yn barhaus.



## Cynllun Elwa o Dwristiaeth

Derbyniwyd diweddariad ar y prosiect Elwa o Dwristiaeth, sydd wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor. Pwrpas y prosiect yw:

“Atgyfnerthu statws Gwynedd fel cyrchfan gynaliadwy o ansawdd rhyngwladol trwy archwilio a gweithredu’r opsiwn gorau er mwyn sicrhau bod pobl a busnesau Gwynedd yn elwa o’r twristiaid sy’n ymweld â’r Sir.”

Wrth graffu’r mater, nododd aelodau bod buddiannau yn dod i bobl Gwynedd o dwristiaeth ond bod angen cyfarch effaith gor-dwristiaeth ar y Sir. A oedd yn cynnwys yr effaith ar yr iaith, trefniadau parcio, yr effaith ar bobl leol ayyb, e.e. y cynnydd mewn Airbnb’s ynghyd â ymestyn y tymor gwyliau a’r effaith ar feysydd carafanau all droi yn ‘bentrefi’ ychwanegol a chael effaith ar ein gwasanaethau, trefniadau cynllunio a’r iaith.

Yn dilyn trafodaethau pellach tu allan i gyfarfod Pwyllgor, trefnodd yr Adran Economi a Chymuned weithdy ar gyfer yr holl Gynghorwyr ynghyd ag aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a chynrychiolwyr o’r sector twristiaeth. Pwrpas y gweithdy oedd rhannu ac adolygu gwybodaeth twristiaeth gyfredol, rhoi gwybodaeth o'r cyd-destun polisi a chynllunio, amlygu heriau a chyfleoedd yn y sector twristiaeth yn ogystal â chael mewnbwn aelodau a chynrychiolwyr o'r sector twristiaeth i sefydlu egwyddorion ar gyfer twristiaeth yn y dyfodol.



Llun: “freepik.com”

## Prosiect Gofal Cartref

Yn mis Tachwedd 2019, derbyniwyd diweddariad o’r gwaith oedd yn digwydd i sicrhau model newydd ar gyfer darpariaeth gofal cartref yng Ngwynedd. Y bwriad yw symud i fodel lle mae un darparwr i bob ardal, gyda pherthynas waith agos ac adeiladol gyda holl aelodau eraill y timau adnoddau cymunedol.

Derbyniodd achos busnes y prosiect gymeradwyaeth y Cabinet ar 23 Gorffennaf 2019, lle cytunwyd i sefydlu model newydd o ddarparu a chomisiynu gofal cartref ar sail is-ardaloedd, gan gyd-gomisiynu â’r Bwrdd Iechyd. Gofynnodd y Cabinet i’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant adolygu’r model ariannol er mwyn sicrhau nad yw’n amharu ar eu gallu i gyflawni eu harbedion gan adrodd yn ôl os oes unrhyw berygl i hynny.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau craffu:-

- Bod y model newydd hwn ar gyfer darpariaeth gofal cartref yn gosod Gwynedd ar flaen y gad.
- Croesawu'r pwyslais ar gyfathrebu gyda'r gweithwyr.
- Croesawu'r cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i gyflwyno'r achos busnes i'w Bwyllgor Cyllid a Chynllunio, a mynegwyd gobaith y byddai cyd-gomisiynu'n digwydd, gan y byddai hynny'n dod â buddion i'r ddau bartner.
- Ei fod yn galonogol clywed, petai rhai darparwyr yn tynnu allan / ddim yn cyrraedd y gofynion, bod gan y Cyngor ddarparwyr mewnol o faint sylweddol fyddai'n gallu cyflogi'r staff.

Bydd y Pwyllgor Craffu Gofal yn derbyn gwybodaeth bellach wrth i'r gwaith symud yn ei flaen, ynghyd â thrafodaethau rhwng y Pennaeth a'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.



Llun: "freepik.com"

## Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Craffwyd gwybodaeth am waith rhanbarthol yn gysylltiedig gyda maethu a mabwysiadu.

O ran y Fframwaith Maethu, derbyniwyd gwybodaeth am y prif ffrydiau gwaith ynghyd a'r blaenoriaethau rhanbarthol. Yn ychwanegol i'r blaenoriaethu rhanbarthol adroddwyd bod y Gwasanaeth yng Ngwynedd yn adolygu ei strwythur mewn ymateb i ofynion y gwasanaeth ar geisio cael gwell cydbwysedd wrth asesu a chefnogi gofalwyr maeth carennydd a gofalwyr maeth cyffredinol.

Gwnaed cais am ddiweddariad ymhen 12 mis ar yr elfen marchnata a llwyddiannau / methiannau rhannu swyddogaethau'r tîm maethu. Yn ogystal ag adroddiad yn egluro sut mae gwaith Gwynedd yn gwau i mewn i waith rhanbarthol (llwyddiannau a methiannau).

Sefydlwyd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn Ebrill 2010. Cyngor Sir Fwrdeistrefol Wrecsam yw'r Awdurdod Lletya ar gyfer y Gwasanaeth gyda'r staff, ers 2010 wedi eu secondio ond yn parhau i weithio o fewn eu hawdurdodau gwreiddiol. Yn dilyn adolygiad o'r Gwasanaeth yn 2017-19 adnabuwyd nad oedd capasiti digonol ar lefel gweithredol a strategol i reoli a datblygu'r gwasanaeth ac felly aed ati i ail fodelu'r strwythur drwy symud tuag at wasanaeth sydd yn cael ei reoli yn llawn gan Gyngor Wrecsam. Bydd holl staff presennol yn trosglwyddo i gyflogaeth Cyngor Wrecsam yn 2020 ond yn parhau i weithio o'u hawdurdodau lleol presennol.



Llun: "freepik.com"

Rhai o'r sylwadau a wnaed gan aelodau wrth drafod oedd:

- Bod llawer o ffrydiau gwaith y Gwasanaeth yn ddibynnol ar grantiau neu arian ychwanegol - hyn yn creu pryder o orfod dibynnu ar grantiau. Angen ystyried cynlluniau ariannu wrth gefn.
- Risg y gallai cynlluniau gael eu tynnu yn ôl oherwydd diffyg cyllideb.
- A ddylai Cyngor Gwynedd ystyried opsiwn prynu tŷ ar gyfer cadw plant o'r un teulu gyda'i gilydd?
- Bod angen marchnata'r Gwasanaeth yn well ynghyd a gwella dulliau cyfathrebu.
- Cais am ddiweddariad ymhen 12 mis.

## Cynllun Gweithredu Tai 2020-2025

Cyflwynwyd adroddiad yng nghyswllt Cynllun Gweithredu Tai gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor cyn i'r rhaglen wariant arfaethedig gael ei gyflwyno er cymeradwyaeth y Cabinet. Roedd yr adroddiad yn manylu ar brif heriau tai yng Ngwynedd, yr adnoddau ar gael ar gyfer cynllun tai 2020-2025, a'r rhestr hir o gynlluniau oedd angen eu blaenoriaethu.

Bydd y cynllun gweithredu yn gweithio tuag at uchelgais Strategaeth Tai 2020 i 2025 y Cyngor, sef i:

"Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd."

Roedd 33 cynllun posib wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gofynnwyd i'r Pwyllgor flaenoriaethu'r cynlluniau. Nodwyd cefnogaeth i'r holl gynlluniau ynghyd a sylwadau cychwynnol o ran blaenoriaethu'r cynlluniau. Daethpwyd i'r casgliad oherwydd y nifer o gynlluniau haeddiannol, y dylid cynnal un cyfarfod rhwng cynrychiolaeth o'r Pwyllgor, y Pennaeth a'r Aelod Cabinet Tai ac Eiddo ar sail tasg a gorffen.

Trefnwyd cyfarfod i adnabod pa gynlluniau oedd bwysicaf wrth geisio gwella sefyllfa tai pobl Gwynedd. Bu'r aelodau craffu canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

- Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd),
- Menna Baines,
- R. Medwyn Hughes,
- Eryl Jones-Williams,
- Cai Larsen.



Bu'r cyfarfod yn werthfawr gyda chyfle i'r aelodau craffu roi sylw haeddiannol i'r holl gynlluniau gyda phawb yn bresennol wedi cael budd o'r cyfarfod.

Llwyddodd y gwaith craffu i gyfrannu at flaenoriaethu'r cynlluniau gan amlygu materion pellach oedd angen ystyriaeth.

# Ymchwiliadau Craffu

## Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Gwastraff

Cyflwynwyd adroddiad Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Gwastraff i gyfarfod 4 Gorffennaf 2019 y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Roedd yn ffrwyth gwaith trylwyr dros gyfnod o amser lle ymgysylltwyd gyda gwahanol grwpiau o bobl. Aelodau'r grŵp a gynhaliodd y gwaith oedd y Cynghorwyr:

- Stephen Churchman (Cadeirydd)
- Keith Jones,
- Mike Stevens,
- Catrin Wager (hyd at Ebrill 1af 2019 pan ei phenodwyd i'r Cabinet).

Cynhaliwyd saith cyfarfod rhwng Gorffennaf 2018 a Mehefin 2019 er mwyn casglu tystiolaeth a thrafod argymhellion ynghyd ac ymweliadau. Fel rhan o'r rhaglen waith fe wnaed gwaith i ddeall a dadansoddi'r sefyllfa bresennol, ystyried y deddfwriaethau perthnasol ac ymgysylltwyd gyda swyddogion sy'n gweithio yn y maes Cynllunio a Thrwyddedu Landlordiaid. Gellir cael mynediad i adroddiad llawn yr ymchwiliad o dan y ddolen yma – Adroddiad Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Gwastraff.



Penderfynodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau dderbyn y chwe argymhelliad a oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ynghyd ag argymhelliad ychwanegol. Dyma'r argymhellion a gyflwynwyd i'r Cynghorydd Catrin Wager (Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol):

1. **Defnyddio pwerau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) Adrannau 46 a 47 sy'n ymwneud a chynhwysyddion gwastraff i gyflwyno trefn newydd lle a phryd y bo'r angen, i ddirwyo trigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir fel mater o flaenoriaeth.**

2. **Ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo sirol i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu gyda ffocws penodol ar Ddinas Bangor a chydnabod y gwahaniaethau daearyddol a demograffig yn y sir ar wahanol adegau o'r flwyddyn.**

3. **Gosod sticeri "QR code" ar gynhwysyddion ailgylchu er mwyn darparu mynediad 24 awr i drigolion at eu diwrnodau casglu gwastraff ac ailgylchu a gwybodaeth am eitemau y gellir eu hailgylchu.**

4. **Ffurfioli trefniadau cydweithio rhwng Adrannau'r Cyngor.**

5. **Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Casgliadau Clinigol a'r Gwasanaeth Casglu Arbennig sydd ar gael i helpu pobl hŷn a phobl anabl i waredu eu gwastraff. Bydd modd gwneud hyn fel rhan o'r ymgyrch hyrwyddo ehangach.**

6. **Hyrwyddo rhwydwaith presennol o Ganolfannau Ailgylchu a chynnal ymgyrch benodol ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus.**

7. **I weithwyr y gwasanaeth casglu weithredu yn briodol fel nad yw gwastraff yn dianc allan o'r cerbydau.**

> "Bydd gweithredu'r argymhellion yn gwneud gwahaniaeth i'r gwasanaeth ac i'r amgylchedd ar gyfer y trigolion."
>
> Aelod Craffu

Cyflwynwyd yr argymhellion i'r Cabinet ar 17 Medi 2019, lle penderfynwyd eu gweithredu. Derbyniwyd diweddariad ar weithredu'r argymhellion yng nghyfarfod 6 Chwefror 2020.

### EFFAITH CRAFFU

Cyfrannodd y gwaith yma drwy'r argymhellion i arwain at wella gwasanaeth ac uchafu hyrwyddo gwybodaeth am drefniadau gwastraff ac ailgylchu. Gan wella'r wybodaeth ar gael i bobl Gwynedd ac o ganlyniad gwella'r amgylchfyd.

## Ymchwiliad Craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

Etholwyd grŵp o aelodau yn niwedd 2017 i wneud gwaith er mwyn:

- Sicrhau bod proses ymgynghori am y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) drafft yn un gynhwysol;
- Craffu fframwaith drafft ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg a fframwaith drafft ar gyfer paratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg;
- Craffu sut y bwriedir gweithredu ar y CCA yng nghyd-destun gofynion y TAN 20 newydd;
- Derbyn trosolwg o'r sylwadau a dderbynnir gan y cyhoedd adeg ymgynghori cyhoeddus am y CCA drafft er mwyn cyflwyno barn i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd cyn i'r CCA terfynol gael ei fabwysiadu.

Cadeiriwyd y grŵp gan y Cynghorydd Gruffydd Williams, gyda'r Cynghorwyr Simon Glyn ac Aled Ll. Evans (Aelod o'r Pwyllgor Iaith) yn aelodau. Gwnaed argymhellion cychwynnol a chyflwynwyd hwy i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Ebrill 2018.

Parhaodd y gwaith yn 2019-20, cyflwynwyd adroddiad terfynol drafft yr ymchwiliad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 4 Gorffennaf 2019. Dros gyfnod y gwaith, fe gynhaliwyd 13 cyfarfod o'r ymchwiliad a derbyniwyd tystiolaeth ar lafar gan 17 o dystion. Gellir cael mynediad i adroddiad yr ymchwiliad o dan y ddolen yma – Adroddiad Ymchwiliad Craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.

### EFFAITH CRAFFU

Tanlinellu pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg a phwysigrwydd asesu effaith datblygiadau ar yr Iaith.

## Ymchwiliad Craffu Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd

Comisiynwyd y gwaith yma gan y Pwyllgor Craffu Gofal yn dilyn Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor gan y Cynghorydd Peter Read:

"Bod y Cyngor yn cyfeirio'r cwestiwn o addasrwydd trefniadau darparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd i'w ystyried ar gyfer y rhaglen craffu."

Bwriad y gwaith oedd adnabod os oedd angen gwella'r ddarpariaeth bresennol ac fe ganolbwyntiwyd ar y ddarpariaeth drwy'r Gwasanaeth Iechyd. Aelodau'r grŵp a gynhaliodd y gwaith oedd y Cynghorwyr:

- Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd),
- John Brynmor Hughes,
- R. Medwyn Hughes,
- John Pughe Roberts,
- Angela Russell.




Nod yr ymchwiliad craffu oedd ateb y cwestiynau canlynol:

- A ellir tystiolaethu bod yr unigolion sydd yn defnyddio gwasanaethau yn ganolog yn y broses o asesu a darparu cyfarpar addas, ac yn cael eu cynorthwyo i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno ei fyw?
- Os oedd anfodlonrwydd neu gwynion am y gwasanaeth presennol, a ydynt yn cael eu cyfarch yn foddhaol?
- Os oes angen, sut mae modd gwella'r gwasanaeth i'r dyfodol?

Casglwyd gwybodaeth gefndirol a thystiolaeth o brofiadau unigolion mewn sawl dull: cyfarfodydd wyneb yn wyneb, holiaduron, sgyrsiau ffôn, e-byst, adroddiadau neu bolisïau cyhoeddus, ac adroddiadau a gomisiynwyd yn bwrpasol i'r ymchwiliad. Cynhaliwyd 4 cyfarfod o'r ymchwiliad rhwng Awst 2018 ac Awst 2019 er mwyn derbyn a dadansoddi tystiolaeth, a chytuno ar argymhellion.

Ar adeg cynnal yr ymchwiliad, roedd 14,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth cadeiriau olwyn neu ddarpariaeth brosthetig wedi eu cofrestru gyda Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd (GYCS) Gogledd Cymru. Yn ystod 2018, daeth 515 o gyfeiriadau am y ddarpariaeth gan drigolion o Wynedd - 466 ohonynt yn oedolion a 49 yn blant. Gyfystyr â 11.5% o'r cyfeiriadau a dderbyniodd GYCS ar gyfer y flwyddyn.

Roedd y nifer o gwynion 'swyddogol' am y ddarpariaeth yn isel – 1 y flwyddyn gan drigolion o Wynedd yn ystod y 3 mlynedd ddiwethaf, ond roedd y dystiolaeth o gwynion 'anffurfiol' a gasglwyd gan yr ymchwiliad yn creu darlun gwahanol. Ymatebodd GYCS Gogledd Cymru yn adeiladol i drafodaethau i chwilio am gyfleoedd i wella'r gwasanaeth er lles y defnyddiwr. Noda adroddiad yr ymchwiliad y dylid adeiladu ar yr ysbryd o gydweithio rhwng GYCS a Chyngor Gwynedd i'r dyfodol.

Deilliodd 12 argymhelliad o'r gwaith craffu a oedd yn cynnwys gofyn i'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant gyfeirio adroddiad yr ymchwiliad at sylw Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, gan ofyn iddynt ystyried yr angen i wneud cais i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad cenedlaethol o addasrwydd y ddarpariaeth cadeiriau olwyn o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth. Ynghyd â chyfeirio'r adroddiad at sylw'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru. Gellir cael mynediad i adroddiad llawn yr ymchwiliad o dan y ddolen yma - Adroddiad Ymchwiliad Craffu Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd.

Roedd adroddiad cynnydd ar weithredu'r argymhellion wedi ei raglennu i'w gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal ar 26 Mawrth 2020. Yn anffodus, oherwydd pandemig Covid-19 nid oedd hyn yn bosib.

## EFFAITH CRAFFU

Amlygu bod problem yn bodoli gan drosglwyddo'r awenau i bwyllgorau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn gwneud gwaith pellach.

## Ymchwiliad Craffu Effaith Datblygiadau Adeiladau Newydd ar Ansawdd Addysg

Mae cryn fuddsoddiad wedi bod ar ddatblygu adeiladau addysgol yng Ngwynedd yn ddiweddar. Y prif gwestiwn i'w gyfarch gan yr ymchwiliad oedd -

"Beth yw effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg disgyblion, ac a oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol?"



Aelodau'r grŵp a gynhaliodd y gwaith oedd y Cynghorwyr:

- Beth Lawton (Cadeirydd),
- Steve Collings,
- Cai Larsen,
- Paul Rowlinson.

Gwnaed gwaith ymchwil trylwyr i ddeall y cyd-destun polisi, adnabod ymarfer da o unrhyw astudiaethau eraill, ymchwilio i'r diffiniad gorau o ansawdd addysg a sut i'w fesur. Cwblhawyd astudiaethau achos ar yr ysgolion canlynol - Ysgol yr Hendre, Ysgol Craig y Deryn, Ysgol Bro Llifon ac Ysgol Glancegin. Ymwelwyd â'r ysgolion er mwyn casglu data ansoddol gan gael barn y Penaethiaid, disgyblion a llywodraethwyr yr ysgolion uchod a oedd gydag adeilad newydd. Ymwelwyd ag Ysgol Treferthyr er mwyn gweld enghraifft o ysgol oedd angen adeilad newydd.

Bwriadwyd casglu data meintiol hefyd, ac er bod data am ysgolion unigol ar gael trwy Adran Addysg y Cyngor neu wefan StatsCymru, bu i Lywodraeth Cymru ddatgan yn haf 2019 na fyddai cyhoeddi manylion perfformiad ysgolion unigol yn cael ei ganiatáu. Roedd hynny yn golygu na fyddai'n bosib defnyddio data cynnydd disgyblion er mwyn mesur effaith adeilad.

Cynhaliwyd 9 cyfarfod o'r ymchwiliad a oedd yn ychwanegol i'r ymweliadau. Lluniwyd argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth i'w cyflwyno i'r Aelod Cabinet Addysg.

Roedd adroddiad drafft yr ymchwiliad i'w gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 19 Mawrth 2020, ond oherwydd pandemig Covid-19, canslwyd y cyfarfod. Gellir gweld yr adroddiad drafft yma - Adroddiad Drafft. Byddwn yn adrodd ymhellach ar waith yr ymchwiliad yn Adroddiad Blynyddol 2020-21.

# Herio Perfformiad

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran a'u rheolwyr gwasanaeth i adolygu perfformiad y gwasanaethau. Mae'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn bresennol yn y cyfarfodydd i herio perfformiad.

Estynnir gwahoddiad i aelodau craffu sydd wedi eu henwebu gan y pwyllgorau craffu i'r cyfarfodydd. Maent yn bresennol er mwyn:

- Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
- Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

Dyma'r aelodau a fynychodd cyfarfodydd herio perfformiad yn ystod 2019/20 fesul Adran:

Addysg
**Beth Lawton**
**Dewi Owen**

Economi
**Elwyn Jones**
**Paul Rowlinson**

Oedolion, Iechyd a Llesiant
**Peter Read**
**Angela Russell**

Plant a Chefnogi Teuluoedd
**Beth Lawton**
**Angela Russell**

Tai ac Eiddo
**Peter Read**
**Angela Russell**

Amgylchedd
**Glyn Daniels**
**Berwyn Parry Jones**

Priffyrdd a Bwrdeistrefol
**Elwyn Jones**
**Edgar Owen**

Ymgynghoriaeth
**Simon Glyn**
**Mike Stevens**

Cefnogaeth Gorfforaethol
**John B. Hughes**
**Dewi W. Roberts**

Cyllid
**Medwyn Hughes**
**Huw Wyn Jones**

Mae gofyn ar yr aelodau yma i adrodd yn ôl i gyfarfodydd anffurfiol y pwyllgorau craffu, sydd yn cael eu cynnal yn dilyn y cyfarfodydd ffurfiol.

Yr hyn sydd yn ddisgwyliedig o'r aelodau craffu i'w eu bod yn nodi eu:

- Argraffiadau cyffredinol - argraff am y graddau y mae tystiolaeth bod gan yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Adran afael cadarn ar drefniadau perfformiad y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.
- Materion sydd angen sylw - unrhyw fater allai fod angen sylw craffu (boed yn fesurydd sydd yn achos pryder neu yn brosiect sydd ddim yn gwireddu'r canlyniadau y mae disgwyl iddynt wneud)

Yn ystod 2019-20, rhai o'r materion a nodwyd gan aelodau oedd:

- Yr angen i gadw llygad ar y sefyllfa o ran trafodaethau rhwng yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant ynglŷn â chyfleusterau chwarae ar gyfer plant Hafan y Sêr (uned egwyl fer wedi ei leoli ar safle Ysgol Hafod Lon).

"Cytundeb bellach rhwng y gwasanaethau o ran symud ymlaen. Ymyrraeth aelod craffu wedi bod o gymorth i chwalu'r rhwystrau."

Uwch Swyddog

- Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd a Môn - rhai yn fodlon gyda'r gwasanaeth, eraill ddim yn fodlon gyda'r gwasanaeth newydd.

Derbyniodd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ddiweddariad ar 21 Tachwedd 2019. Cydnabuwyd bod yna heriau, ond bod datblygiadau mawr wedi cymryd lle a chroesawyd y ffaith y byddai hynny'n parhau. Hefyd, roedd y pwyllgor yn ymfalchïo o glywed bod Gwynedd gymaint ar y blaen i awdurdodau eraill yn y maes yma.

- Bod materion diogelwch staff wedi eu codi gan reolwyr Storiel, yr Archifdy a'r Gwasanaeth Morwrol. Efallai bod angen edrych yn fwy manwl ar ddiogelwch staff, yn enwedig y rhai sy'n gweithio ar eu pen eu hunain a'r rhai a all wynebu ymddygiad gwrthgymdeithasol a bygythiadau gan eraill.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried y mater wrth lunio ei raglen waith o ran craffu.

# Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2019/20

**49 aelod** wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn.

**41 eitem** wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

**3 cyfarfod** o'r Fforwm Craffu wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

Aelodau craffu wedi **mynychu cyfarfodydd** Byrddau Craffu Addysg Ardal.

**Sesiynau gwybodaeth** wedi eu cynnal ar y meysydd yma:

- Rhaglen Cefnogi Llesiant Pobl
- Llesiant a Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

**Cyfarfodydd wedi eu cynnal** rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion a'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol.

**Cefnogaeth i'r gwaith craffu** gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu ac Ymgynghorydd Craffu. Mae 3 x Swyddog Cefnogi Busnes ar gael i arwain ar ymchwiliadau craffu.

**ATODIAD**

# Rhaglen Waith Craffu 2019-2020

| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | |
|---|---|
| **20 Mehefin 2019** | • Strategaeth Iaith Uwchradd (AE11b)<br>• Siarter Iaith Gynradd (AE39) |
| **10 Hydref 2019** | • Elwa o dwristiaeth (AE42)<br>• Hafan a Harbwr Pwllheli (AE23) – adroddiad cynnydd<br>• Canolfannau Iaith – methodoleg y cynllun peilot (AE53b) |
| **21 Tachwedd 2019** | • Arbedion 2020/21(AE40) – Adrannau - Addysg, Economi<br>• Hafan a Harbwr Pwllheli (AE23)<br>• Brexit (AE35c)<br>• TRAC (AE59)<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol (AE10c) |
| **23 Ionawr 2020** | • Gwasanaethau Ieuenctid (AE8b) |
| **19 Mawrth 2020**<br><br>(Wedi eu rhaglennu ond ni graffwyd oherwydd pandemig Covid-19) | • Adroddiad ar ddeilliannau 2019 (AE19c) ac Adroddiad Blynyddol Addysg (AE20b)<br>• Cludiant Ysgolion (AE29)<br>• Ymchwiliad – adroddiad "Effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg' (AE14) |

| Pwyllgor Craffu Gofal | |
|---|---|
| **6 Mehefin 2019** | • Anawsterau Recriwtio (G17) |
| **12 Medi 2019** | • Adroddiad Ymchwiliad Cefnogi Pobl Anabl yng Ngwynedd (G10) |
| **14 Tachwedd 2019** | • Arbedion 2020/21 (G51) – Adrannau Plant, Oedolion, Tai ac Eiddo<br>• Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (G22)<br>• Gwasanaeth Gofal Cartref (G44) |
| **30 Ionawr 2020** | • Gwaith Rhanbarthol: Maethu a Mabwysiadu (G21c)<br>• Datblygiad y Tîm Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a Phroblemus (G53)<br>• Arian Trawsnewid Cymru Iachach (Plant)<br>• Cynllun Gweithredu Tai (G56)<br>• Gofal Dementia (G46) |

| | |
|---|---|
| **26 Mawrth 2020**<br><br>(Wedi eu rhaglennu ond ni graffwyd oherwydd pandemig Covid-19) | • Trawsffurfio iechyd a gofal ar draws Gwynedd a Môn<br>• Ymchwiliad Cefnogi Pobl Anabl yng Ngwynedd (G10) – ymateb i'r argymhellion |

| **Pwyllgor Craffu Cymunedau** | |
|---|---|
| **4 Gorffennaf 2019** | • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Adroddiad Blynyddol (C1)<br>• Gorfodaeth Gwastraff – cyflwyno Argymhellion(C2)<br>• Trefniadau Rheoli Parcio (C11)<br>• Cynllunio a'r Iaith Gymraeg – cyflwyno argymhellion (C10) |
| **26 Medi 2019** | • Trefniadau Incwm Parcio (C11)<br>• Cludiant (C24)<br>• Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (C33) |
| **5 Rhagfyr 2019** | • Trosedd ac Anrhefn (C7)<br>• Strwythur Llywodraethiant a Strwythur Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (C1a)<br>• Arbedion 2020/21 (C30) – Adrannau Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Ymgynghoriaeth Gwynedd<br>• Tai Haf a Chynllunio (C34) |
| **6 Chwefror 2020** | • Gorfodaeth Stryd (C23)<br>• Gorfodaeth Gwastraff (C23) – ymateb i'r argymhellion<br>• Materion Cynllunio a'r Cynllun Dirprwyo (C29) |
| **2 Ebrill 2020**<br><br>(Wedi eu rhaglennu ond ni graffwyd oherwydd pandemig Covid-19) | • Adroddiad Cynnydd ar Gyflawni'r Cynllun Llesiant (C1b)<br>• Adolygiad Cludiant (C24)<br>• Rhaglen Waith Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy (C6)<br>• Caeau Chwarae a Llecynnau Gwyrdd (C35) |

| **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** | |
|---|---|
| **13 Mehefin 2019** | • Trosolwg Arbedion 2018/19: adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion |
| **28 Tachwedd 2019** | • Arbedion 2020/21 (ALl18) – Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Cyllid a'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol |

| | |
|---|---|
| | • Strategaeth Ariannol – Cylch Gwaith Cyllideb 2020/21 (craffu'r gwaith yn gynnar yng nghylch cyllidebu'r Cyngor) |
| **13 Chwefror 2020** | • Cyllideb 2020/21 (gyda ffocws ar risg, cyn i'r Cabinet argymell cyllideb a threth i'r Cyngor llawn gymeradwyo)<br>• Strategaeth Cyfalaf (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg) - nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol, a chefnogi cyflwyno'r strategaeth i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth<br>• Trosolwg Arbedion 2019/20: cynnydd ar wireddu cynlluniau |